# Newyddlen

Gorffennaf 2023

Cronfa Bensiwn
**GWYNEDD**
Pension Fund

## Croeso i Newyddlen Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

Yn y newyddlen hwn, ein nod yw rhoi gwybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i'r CPLlL a all effeithio arnoch chi. Fe welwch hefyd wybodaeth ddefnyddiol am eich pensiwn a meysydd o ddiddordeb arall.

## Dyma Fanteision Allweddol y CPLlL:

- Pensiwn sy'n daladwy am oes
- Pensiwn wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant
- Buddion wedi'u gwarantu gan y gyfraith
- Yswiriant bywyd o ddiwrnod cyntaf eich aelodaeth
- Pensiwn ar gyfer eich dibynyddion
- Gostyngiad treth ar eich cyfraniadau
- Eich cyflogwr yn cyfrannu at y gost o'ch buddion
- Opsiwn i gyfnewid pensiwn blynyddol am lwmp swm di dreth adeg ymddeol
- Opsiwn i dalu mwy o gyfraniadau.....neu lai

## Hunaniaeth Newydd Cronfa Bensiwn Gwynedd

Rydym yn gyffrous o ddatgelu ein hunaniaeth newydd ar gyfer Gronfa Bensiwn Gwynedd: logo newydd, gwedd newydd a lliwiau wedi'u hadfywio. Roeddem yn teimlo ei bod yn bryd newid, mae ein logo newydd bellach wedi'i foderneiddio, ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wellant parhaus ac arloesedd. Byddwch yn amyneddgar gyda ni dros y misoedd nesaf gan y byddwn yn gwneud newidiadau i'n gwefan ond peidiwch â phoeni bydd y cyfeiriad gwe a'r dolenni yn aros yr un fath.

## Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd
## Awst 5 - 12 2023

Dewch i'n gweld ar faes yr Eisteddfod ym Moduan, gallwch ddod o hyd i ni ar stondin 208. Bydd ein tîm  yno o 10 y bore hyd at 5 y prynhawn trwy gydol yr Eisteddfod. Byddem yn falch iawn o'ch gweld, dewch i ddarganfod mwy am werth eich pensiwn a sut y caiff ei gyfrifo. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein bydd y tîm yno i'ch helpu a'ch rhoi ar ben ffordd.

# Faint ydwyf yn talu?

Fel aelod actif o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rydych yn gwneud cyfraniadau i'r cynllun. Mae'r cyfraniadau hyn yn denu gostyngiad yn y dreth y byddwch yn talu.

Mae'r raddfa yr ydych yn talu yn dibynnu ar eich cyflog. Mae'r bandiau cyflog o 1af o Ebrill 2023 wedi'u hamlinellu isod. Mi fydd yr amrediad cyflog ar gyfer pob band cyfraniadau yn newid bob mis Ebrill, yn unol â chostau byw:

| Gwir dâl pensiynadwy: | Cyfraniad Prif Adran : | Cyfraniad Adran 50/50 |
|---|---|---|
| Hyd at £16,500 | 5.5% | 2.75% |
| £16,501 i £25,900 | 5.8% | 2.90% |
| £25,901 i £42,100 | 6.5% | 3.25% |
| £42,101 i £53,300 | 6.8% | 3.40% |
| £53,301 i £74,700 | 8.5% | 4.25% |
| £74,701 i £105,900 | 9.9% | 4.95% |
| £105,901 i £124,800 | 10.5% | 5.25% |
| £124,801 i £187,200 | 11.4% | 5.70% |
| Mwy na £187,201 | 12.5% | 6.25% |

Mae'n ddyletswydd ar eich cyflogwr i roi gwybod i chi pa fand cyfrannu yr ydych yn ei dalu. Os ydych yn credu eich bod wedi'ch gosod yn y band anghywir, cysylltwch a'ch cyflogwr.

# A allaf dalu llai i fewn i fy mhensiwn CPLlL?

Mae gan y CPLlL opsiwn sy'n caniatáu i weithwyr sy'n gymwys ar gyfer aelodaeth CPLlL ddewis talu hanner eich cyfraniad arferol a derbyn hanner lefel y pensiwn yn gyfnewid am y cyfnod hwn yn hytrach nag optio allan o'r cynllun yn gyfan gwbl. Byddwch yn dal i gadw'r yswiriant salwch a marwolaeth llawn yn ystod y cyfnod hwn. Os dymunwch ymuno ag adran 50/50 y cynllun, bydd angen i chi ofyn am ffurflen etholiad gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

# A allaf dalu mwy i gynyddu fy muddion?

Gallwch, mae opsiynau ar gael i gynyddu eich buddion pensiwn yn y CPLlL gan gynnwys CPY ac CGY. Ewch i'n gwefan **www.cronfabensiwngwynedd.cymru** i ddarganfod mwy am yr opsiynau hyn.



# Codiad Pensiwn

Mae pensiynau gohiriedig, pensiynau mewn taliad a'r elfen gyfartalog gyrfa o fuddion pensiwn ar gyfer aelodau actif yn cael eu hailbrisio bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar gyfer Ebrill 2023 roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 10.1% i'r buddion.

# Byddwch yn ScamSmart gyda'ch pensiwn

Mae sgamiau'n anodd eu gweld ac yn aml maent wedi'u cuddio a gwefannau credadwy, tystebau a deunyddiau sy'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth y peth go iawn. Er mwyn eich helpu i adnabod yr arwyddion ac amddiffyn eich hun rhag sgâm, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (Financial Conduct Authority) a'r Rheoleiddwr Pensiynau yn awgrymu dilyn y pedwar cam syml canlynol:

**Cam 1 - Gwrthod cynigion annisgwyl**

**Cam 2 - Gwiriwch gyda phwy rydych chi'n delio gyda**

**Cam 3 - Peidiwch a chael eich rhuthro neu rhoi dan bwysau**

**Cam 4 - Mynnwch wybodaeth neu gyngor diduedd**

Ystyriwch defnyddio **HelpwrArian** sy'n darparu gwybodaeth ac arweiniad annibynnol a diduedd am ddim.

Os ydych yn amau sgâm, rhowch wybod amdano. Cysylltwch gyda'r FCA gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd ar-lein neu ar **0800 111 6768**. Allwch hefyd rhoi gwybod i Action Fraud ar **0300 123 2040** neu ewch i **www.actionfraud.police.uk**

I gael gwybod mwy, ewch i **www.fca.org.uk/scamsmart**

Helpwr Arian

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
0300 123 2040

FCA FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

# Mae eich datganiad buddion blynyddol nawr ar lein!!

Ydych chi'n ymwybodol faint yw gwerth eich pensiwn?
Ewch i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i weld eich datganiad.


# Cofrestrwch heddiw!

I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol ewch i'n gwefan ar **https://aelodau.cronfabensiwngwynedd.cymru** lle gallwch chi:

- **Rhedeg amcanestyniadau pensiwn**
- **Gweld manylion pensiwn**
- **Gweld a Diwygio manylion personol, fel newid cyfeiriad cartref, manylion enwebiad**
- **Gweld y Datganiad Buddion Blynyddol**




Ddylai eich Datganiad Buddion Blynyddol roi syniad i chi o'r buddion sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn dreth ddiwethaf ac ar eich Oedran Pensiwn Arferol.




# Enwebiad Grant Marwolaeth

O'r diwrnod cyntaf byddwch yn ymuno â'r cynllun pensiwn, mae lwmp swm grant marwolaeth o **3 gwaith eich cyflog blynyddol** yn daladwy os byddwch yn marw tra mewn gwasanaeth, ac o dan 75 mlwydd oed. Dylai pob aelod o'r cynllun cwblhau ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth. Mae hyn yn eich galluogi i gynnig 1 neu fwy o unigolion neu sefydliadau i dderbyn y taliad grant marwolaeth berthnasol.



cplll lgps
CRONFEYDD PENSIWN CYMRU ALL WALES PENSION FUNDS

**Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth**

**Eich Manylion Personol**

| | |
|---|---|
| Enw: | Dyddiad Geni: |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | |
| Cyfeiriad Cartref: | |
| | Cod Post: |

**Manylion Personol – Buddiolwr 1** — Cyfran

| | | |
|---|---|---|
| Enw: | | % |
| Dyddiad Geni: | Perthynas: | |
| Cyfeiriad: | | |
| | Cod Post: | |

**Manylion Personol – Buddiolwr 2** — Cyfran

| | | |
|---|---|---|
| Enw: | | % |
| Dyddiad Geni: | Perthynas: | |
| Cyfeiriad: | | |
| | Cod Post: | |

**Manylion Personol – Buddiolwr 3** — Cyfran

| | | |
|---|---|---|
| Enw: | | % |
| Dyddiad Geni: | Perthynas: | |
| Cyfeiriad: | | |
| | Cod Post: | |

**Datganiad**

Rydw i wedi darllen y nodiadau drosodd. Gofynnaf i Cyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd) ddefnyddio disgresiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | **Dyddiad:** |

Dychwelwch os gwelwch yn dda i : Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Gallwch enwebu/diweddaru eich mynegiant drwy mewngofnodi i mewn i'ch cyfrif **Fy Mhensiwn Ar-Lein** neu cysylltwch â'r Gronfa os byddai'n well gennych gael copi caled. Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd y disgresiwn terfynol ar bwy fydd yn derbyn y lwfans marwolaeth, ond byddant bob amser yn cymryd eich dymuniadau i ystyriaeth.

# Manylion Cyswllt

☎ **01286 679982**

✉ **pensiynau@gwynedd.llyw.cymru**

Cyfeiriad: Cronfa Bensiwn Gwynedd
Stryd Y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

CYNGOR GWYNEDD

cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol